

Cyngor Cymuned Eglwys Bach - Cofnodion Cyfarfod 07/11/16

PRESENNOL: Cynghorwyr: Austin Roberts (Cadeirydd), Gwilym Williams, John Lloyd Williams, Ceri Leeder, Katherine Himsworth John Emlyn Jones (cofnodwr)

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr: Gwyn Williams, Gwyn Morris Jones

DATGAN DIDDORDEB: DIM

COFNODION Y CYFARFODYDD DIWETHAF: Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf (03/10/16).

MATERION YN CODI:

Trofa Tŷ Gwyn - Dywedodd y Cyng. Austin Roberts ei fod wedi cael gair pellach gyda swyddogion y Cyngor Sir. Barn y swyddogion oedd, os oedd rhywfaint o lechfeddiant wedi digwydd, dim ond 1 medr ar y mwyaf. Doedd y swyddogion ddim yn ystyried ei fod yn ddigon dirifol i dalu costau cyfreithiol drud i ddelio gyda'r mater. Roedd y swyddogion yn hapus os oedd digon o dir i beiriant i dorri glaswellt ar fin y ffordd.

***Penderfynwyd:** Cyng. Austin Roberts i holi asiant tir y Cyngor Sir.*

Arwydd Y Berllan - Dim byd pellach.

Polyn Fflag - Mae'r Cyng. Austin Roberts wedi bod ceisio rhagor o wybodaeth gan swyddogion y Cyngor Sir a rhai unigolion. Y farn yw bydd angen tynnu'r polyn a'i fyrhau rhywfaint cyn ei ail osod yn is yn y ddaear.

***Penderfynwyd:** Y Cyng. Austin Roberts i fwrw 'mlaen gyda'r mater a chytunodd y Cyng. Gwilym Williams gynorthwyo.*

Ffens ar lan yr afon gyferbyn â'r ysgol - Hysbysodd y cadeirydd y cyfarfod mai yn ôl un o swyddogion y Cyngor Sir, mae peth amhwysedd parthed perchnogaeth y tir dan sylw. Rhoddwyd ffens dros dro gan y Cyngor Sir oherwydd pryderon ynglŷn â diogelwch disgyblion yr ysgol. Gallai gosod ffens barhaol wanhau'r dorlan. Cafwyd ar ddeall y cynhelir cyfarfod ar 08/11/16 gan swyddogion y Sir i drafod y mater.

Swydd Clerc - Cynhaliwyd cyfweiliad ar 01/11/16 gyda'r un ymgeisydd oedd wedi dangos diddordeb yn y swydd. Gan ei bod wedi derbyn swydd gyda chynghor tref yn Sir Ddinbych, nid oedd hi'n teimlo yn rhydd i dderbyn y swydd hon. Cafwyd ar ddeall fod person arall â diddordeb yn y swydd.

***Penderfynwyd:** Gwahodd y person i'r cyfarfod nesaf fel sylwedydd a chynnal sgwrs anffurfiol â hi wedi'r cyfarfod.*

Ceisiadau Cynllunio - Dau gais am newidiadau i Neuadd Bodnant (Adeilad Rhestredig).

***Penderfynwyd:** Nid oes gan y Cyngor sylw am y ceisiadau.*

Taliadau -

Sue Hayward (glanhau toiledau Hydref) £122.50

W D Williams (torri glaswellt mynwent y Cyngor ym Medi) £330

Neuadd Aberconwy (hurio'r ystafell) £22

C F Slater (tân gwyllt) £700

SADS UK (blwch ac arwyddion y diffibriliwr) £335

Y Lleng Brydeinig (torch) £45. Bydd y Cadeirydd yn gosod y dorch ar y gofeb ar Sul y Cofio ar ran y Cyngor.

Mandad Banc Cwblhaodd y cynghorwyr oedd y bresennol eu manylion ar y mandad banc newydd. Cytunodd y Cyng. Austin Roberts i fynd a'r mandad i'r cynghorwyr eraill i'w cwblhau.

Noson Tân Gwyllt - Cynhaliwyd y noson ar Dachwedd 5ed gan mai dyna'r noson oedd yn gyfleus i Mr Salter. Trefnwyd fod Tafarn Y Bee yn darparu bwyd. Derbyniwyd cymorthdal o £250 gan yr heddlu tuag at y noson. Bu Swyddog Cymunedol yr Heddlu yn rhoi sgwrs i ddisgyblion yn yr ysgol am y peryglon o gynnu tanau yn fwriadol. Daeth tyrfada i gefnogi'r noson a chasglwyd £363.50 tuag at flwch y diffibriliwr. Diolchodd y Cadeirydd i bawb a gafodd ran yn y trefnu.

Penderfynwyd: *Ymholi ymhellach parthed yswiriant ar gyfer y noson*

Y Cyng. Ceri Leeder i holi am gyfraniad ariannol Y Bee tuag at y noson.

Ymchwilio i'r posibilrwydd o ofyn i rai o'r pentrefwyr i ffurfio pwyllgor bach i drefnu noson tân gwyllt y flwyddyn nesaf.

Y Diffibriliwr - Hysbysodd y Cyng. Ceri Leeder y cyfarfod ei bod wedi trefnu hyfforddiant ar gyfer defnyddio'r diffibriliwr ar nos Fercher Tachwedd 9fed. Cynhelir yr hyfforddiant yn y Neuadd a'r darparwyr fydd Achub Calon y Dyffryn. Trefnwyd hefyd i aelod o'r Gymdeithas Strôc i roi sgwrs fer ar sut i adnabod symptomau rhywun sydd wedi cael strôc. Bydd llythyr yn cael ei ddarllen oddi wrth rywun yn y pentref arbedwyd ei fywyd drwy un o'r Ymatebwyr Cyntaf. Cynhelir sesiwn arall o hyfforddiant yn y dyfodol - efallai yn ystod y dydd.

Penderfynwyd: *- Talu am y blwch a'r arwyddion (gw. uchod)*

Talu am gostau'r hyfforddwyr ac am logi'r neuadd.

Y Cyng. John Lloyd Williams i gysylltu gydag ysgrifennydd Pwyllgor y Neuadd parthed union leoliad y blwch a'r golau.

Amser ymteb Ambiwylans. Hysbysodd y Cyng. John Lloyd Williams am achos rhiant yn y pentref oedd wedi gorfod disgwyl am ddwy awr cyn i ambiwlans gyrraedd o Flaenau Ffestiniog at ei phlentyn ifanc.

Penderfynwyd: *Ysgrifennu at Wasanaeth Ambiwylans Cymru yn datgan pryder y Cyngor fod ambiwlans wedi cymryd cymaint o amser cyn ymateb i sefyllfa gallai fod wedi datblygu yn rhywbeth difrifol iawn.*

Pryder am lifogogydd. Nododd y Cyng. Katherine Himsworth fod pryder ymhlith rai o drigolion Heol Ffynnon Asa a Heol Carrog ynghlŷn â'r posibilrwydd o lifogogydd yn benodol oherwydd y giât a osodwyd o dan y bont newydd i rwystro anifeiliad rhag crwydro. Mynegwyd pryder hefyd ei bod hi'n ymddangos fod y dorlan mewn peryg o erydu mewn manau ger y bont.

***Penderfynwyd:** Cytunodd y Cyng. Katherine Himsworth i gael gair gyda'r ffermwr sydd a'i dir ger y bont i ofyn pa giatiaiu, penodol ar gyfer y gwaith, sydd ar gael.*

GOHEBIAETH

Cynllun Chwarae Haf. Darllenwyd llythyr oddi wrth Gareth Stacey o Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy yn cynnig trefnu Cynllun Chwarae ar gyfer haf 2017 yn y pentref ar gost o ddim mwy na £1,218.10.

***Penderfynwyd:** Holi Menter Iaith Conwy os oedden nhw'n trefnu cynllun chwarae fel eleni.*

Cyfyngiadau cyflymder o 20 mya. Darllenwyd e-bost a dangoswyd map yn hysbysu'r cyngor o fwriad y Cyngor Sir i osod arwyddion cyfyngu cyflymder o 20 mya gorfodol ger Ysgol Eglwys Bach.

***Penderfynwyd:** Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad i hyn.*

Diwrnod Amgylcheddol Eglwys Bach. Darllenwyd e-bost oddi wrth Philip Vipond, Swyddog yr Amgylchedd CBS Conwy yn diolch i'r Cyngor am eu cydweithrediad ar ddiwrnod y Diwrnod Amgylcheddol a gynhaliwyd ym mis Awst.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf - Rhagfyr 5ed 2016 am 7:30

Daeth y cyfarfod i ben am 9:20